Cyngor Bro Llanllwni

Adroddiad Cyfarfod 30 Mawrth 2026

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Ionawr 2026.

Y Cae Chwarae

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Cafwyd cadarnhad bod yr Asiantaeth a blannodd y coed wedi bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y coed yn ddiweddar. Yr oedd y Clerc wedi derbyn ffurflenni ar gyfer gwneud cais i roi tarmac yn y fynedfa i'r Cae Chwarae.

Gwefan Llanllwni

Roedd Adroddiad Rhagfyr 2025 ar y wefan.

Diffyg Ymateb gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Roedd y Clerc wedi cysylltu sawl gwaith dros flwyddyn â Chyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â sawl pwnc o bwys yn y plwyf. Nid oedd wedi derbyn ymateb na gweld gweithredu ar amryw ymholiadau perthnasol.

Bocs Hysbesebu

Nodwyd bod cyfle wedi codi i osod bocs hysbysebu y tu allan Siop T.L. Thomas gan fod Siop y Pentref bellach wedi cau.

Penderfynwyd cefnogi: Elusen 'Kids Cancer Trust' Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Gorllewin Myrddin, Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las.

Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 15 Mehefin 2026 am 7.30yh.